

Cyfleoedd Cydnabod Dysgu Blaenorol

Mae'r Brifysgol yn awyddus i ystyried ceisiadau yn seiliedig ar Gydabod Dysgu Blaenorol (RPL). Pan fyddwch yn gwneud cais, os byddwch yn sylwi eich bod chi wedi cwblhau rhan o'r dysgu y byddwch yn ymgymryd ag ef wrth i chi ddilyn eich cwrs dewisol yn barod mewn sefydliad arall, ac mae gennych ardystiad ar gyfer y dysgu hwn, yna rhowch wybod i'r Swyddog Derbyn yn y Gofrestrfa. Bydd y Swyddog Derbyn yn rhoi manylion cyswllt y Tiwtor Derbyn yn y gyfadran i chi a fydd yn eich tywys chi drwy'r weithdrefn. Yn yr achos hwn, gofynnir i chi lenwi ffurflen, gan weithio gyda'r Tiwtor Derbyn yn y gyfadran, i fapio'r deiliannau dysgu rydych wedi'u cyflawni yn barod yn erbyn y rheiny a osodir ar gyfer y rhaglen rydych wedi'i dewis. Bydd y ffurflen hon yn cael ei gwirio a'i chadarnhau a chewch wybod y canlyniad cyn gynted â phosibl. Mae'n debyg y bydd y canlyniad, os bydd eich cais yn llwyddiannus, yn un o ddau:

- 1) Fe gewch safle uwch: hynny yw, byddwch yn mynd yn uniongyrchol i ail neu drydedd flwyddyn rhaglen
- 2) Fe gewch eich esgusodi: hynny yw, ni fydd yn rhaid i chi wneud holl fodiwlau'r rhaglen rydych wedi'i dewis.

Os ydych chi'n credu eich bod eisoes wedi caffael rhan o'r dysgu y byddwch yn ymgymryd ag ef wrth i chi ddilyn eich cwrs dewisol o ganlyniad i'ch profiad (efallai eich bod wedi gwneud peth o'r hyn y byddwch yn ei astudio yn barod yn rhinwedd eich swydd) yna rhowch wybod i'r Swyddog Derbyn yn y Gofrestrfa. Bydd y Swyddog Derbyn yn rhoi manylion cyswllt y Tiwtor Derbyn yn y gyfadran i chi a fydd yn eich tywys chi drwy'r weithdrefn. Os ydy eich cais yn ymwneud â 40 credyd neu llai neu un rhan o dair o raglen neu llai (p'run bynnag yw'r lleiaf) yna caiff ei ystyried gan y Bwrdd Cydnabod Dysgu drwy Brofiad Blaenorol, ac os bydd eich cais yn llwyddo, ni fydd yn rhaid i chi gymryd holl fodiwlau'r rhaglen rydych wedi'i dewis. Os ydy eich cais ar gyfer mwy na 40 credyd neu fwy nag un rhan o dair rhaglen yna fe gewch eich gwahodd i gymryd y modiwl Cydnabod ac Achredu Dysgu. Bydd y Brifysgol yn ystyried ceisiadau ar gyfer hyd at ddwy ran o dair rhaglen israddedig (240 credyd) neu hyd at ddwy ran o dair rhaglen ôl-raddedig a addysgir (120 credyd).

Ceir rhagor o fanylion yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, Pennod 10, 'Dysgu drwy leoliadau; dysgu seiliedig ar waith; cydnabod dysgu blaenorol', adran 10.4 'Gweithdrefn Cydnabod dysgu blaenorol' sydd yn

http://www.trinitysaintdavid.ac.uk/en/media/uniweb/content/documents/departments/qualityassuranceunit/academicqualityhandbook/Chapter_10_Placement_Learning_WBL_Recognition_of_Prior_Learning_Pages_219-240.pdf

Gallwch gysylltu â Thiworiaid Derbyn y Gofrestrfa trwy rifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost prif swyddfa'r Gofrestrfa. Gweler gwefan y Brifysgol am fanylion cyswllt.